# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

7 Gorffennaf/July, 2020

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD RITHIOL O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD0**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod rhithiol o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar ddydd Iau, 16 Gorffennaf, 2020 am 1.30 o'r gloch yp i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Mrs Annwen Morgan*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**VIRTUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)**

Your attendance is requested at a virtual meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on Thursday, 16 July, 2020 at 1.30 p.m. , to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Mrs Annwen Morgan*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mrs Annwen Morgan **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

## R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**2** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON DRAFFT - 1 EBRILL 2018 I 30 MEDI 2019</u>**
(Tudalennau 1 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Dyddiad :** | **16 Gorffennaf 2020** |
| **Teitl yr Adroddiad :** | **Adroddiad Blynyddol 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2019** |
| **Pwrpas yr Adroddiad :** | **I gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft i'w Mabwysiadu** |
| **Adroddiad Gan :** | **Trysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn** |
| **Gweithrediad :** | **Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac awdurdodi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau** |

Mae'r archwiliad o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ar gyfer 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2019 wedi eu cwblhau ac, felly, fe'u cyflwynir i'w mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Gwahoddir yr Ymddiriedolaeth Elusennol i fabwysiadu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyflwynir, ac i awdurdodi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth i arwyddo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon â'r Llythyr o Gynrychiolaeth yr Archwiliad.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **16 Gorffennaf 2020**

# YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

# ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2019

## ANNUAL REPORT

## 1 April 2018 to 30 September 2019

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn / Isle of Anglesey Charitable Trust
Swyddfa'r Sir / County Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Cofrestredig : 1000818

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2019

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae Gweithred Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd raid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio gyda nhw.

### YMDDIRIEDOLWR

Unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn. Y rhai mewn swydd oedd:-

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Trevor Lloyd Hughes MBE |
| Is-Gadeirydd | Richard Owain Jones |
| Ysgrifennydd | Prif Weithredwr y Cyngor:<br>Dr William Owen Gwynne Jones tan 30 Medi 2019 |
| Trysorydd | Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 y Cyngor:<br>Marc Jones |
| Cyfreithiwr | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro'r Cyngor:<br>Lynn Ball |

**CYNGHORWYR**

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod:-

| | | |
|---|---|---|
| Bancwyr | : | HSBC Cyf<br>Stryd Fawr<br>Llangefni<br>LL77 7LU |
| Archwilwyr | : | W.J.Matthews a'i Fab<br>Cyfrifwyr Siartredig<br>11 - 15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon<br>LL55 1AB |
| Rheolwyr Buddsoddi: | | HSBC Private Bank (UK) Limited<br>78 James's Street<br>Llundain<br>SW1A 1JB |

**<u>Y TREFNIADAU AR HYN O BRYD AC I'R DYFODOL</u>**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Sefydliad Corfforedig Elusennol, a fydd yn cael ei adnabod fel "Cymdeithas Elusennol Ynys Môn". Bydd y Sefydliad newydd yn endid cyfreithiol ar wahân gyda'r un dibenion elusennol ag Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Mae asedau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi cael eu trosglwyddo i'r endid newydd o 1 Hydref 2019, yn dilyn penderfyniad ffurfiol gan yr Ymddiriedolwyr ar 24 Medi 2019 ac, felly, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu cyfnod estynedig, sef o 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Medi 2019. Hwn yw'r adroddiad olaf o dan yr Ymddiriedolaeth flaenorol.

**<u>STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI</u>**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd y Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a dderbyniodd y Cyngor gan Shell (UK) Ltd pan roddodd y gorau i redeg y Lanfa Olew ym Môn. Derbyniwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion".

Mae gan y Cyngor Sir 30 Aelod etholedig sydd, ar gyfer gweithredu fel Ymddiriedolwr, yn cyfarfod ar wahân i'w cyfarfodydd fel Awdurdod Lleol. Mae Aelodau etholedig newydd yn cael eu briffio ar amcanion a gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth. Cefnogir yr holl Aelodau etholedig gan swyddogion y Cyngor, sy'n derbyn hyfforddiant rheolaidd fel rhan o'u swyddi. Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

> Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth yr Ymddiriedolaeth ac am faterion cytundebol eraill.

Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Ymddiriedolaeth Elusennol a benderfynir gan y corff llawn ac ddirprwyir i'r Pwyllgor hwn.

Pwyllgor Adfywio, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid ar gyfer amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.

Mae Swyddogion yr Ymddiriedolaeth Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Mae'r gweithgareddau dyddiol, fel y'u cymeradwyir gan yr Ymddiriedolaeth, yn cael eu gweinyddu ar ran yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Ymddiriedolaeth hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan yr Ymddiriedolwr, wedi eu hadolygu a sefydlwyd systemau neu gweithdrefnau i reoli'r risg.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**

Cyfyngir amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

Darparu mwynderau a chyfleusterau;
Cadwraeth adeiladau;
Cadwraeth a gwarchod tir;
Gwarchod a diogelu'r amgylchedd.

Cyrhaeddir y nodau hyn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau sydd er budd y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu wedi eu nodi yn y Weithred Ymddiriedolaeth. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Ymddiriedolaeth fel y gwêl yn ddoeth.

Mae gwaddol gan yr Ymddiriedolaeth, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriel Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

**POLISI DYRANNU GRANTIAU**

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Mae rhain ar gyfer grantiau bach (llai na £8,000) ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahodd ceisiadau am gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Cyllidir grantiau mwy o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau. Y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau sy'n penderfynu'r gwerth i'w ddyrannu yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y flwyddyn flaenorol a'r perfformiad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyrennir y grantiau mwy (dros £8,000) i sefydliadau sy'n cwrdd a dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolwr yn gwahodd ceisiadau am gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);
Grantiau bach (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn llai na £8,000);
Grantiau mwy (grantiau mawr unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn fwy na £8,000).

## POLISI YNGLŶN Â'R ARIAN WRTH GEFN

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian cyfalaf wrth gefn ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymiadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymiadau ariannol gael eu gwneud dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol, caniateir i'r arian wrth gefn cyffredinol fynd i ddiffyg ar yr amod fod llif arian yn dod ag ef yn ôl i warged erbyn pryd y bydd yr ymrwymiad wedi ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Ymddiriedolwr yn ystyried fod lefel yr arian wrth gefn presennol yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd i dalu costau llywodraethu.

## CYFLAWNI A PHERFFORMIAD

Rhoddwyd grantiau i gyrff gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt ac y mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i elusennau lleol a chyrff chwaraeon a rhai gwirfoddol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth hefyd i gyllido Oriel Ynys Môn, sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor Sir.

Yn ystod y cyfnod cyfrifo, roedd Oriel Ynys Môn ar agor am 543 diwrnod, gan gyrraedd ei tharged ar gyfer dyddiau agor.

Yn ystod cyfnod cyfrifo, ddaru'r Oriel:-

- Ddenu 109,511 o ymwelwyr, sef 76,719 am y 12 mis hyd at Ebrill 2019 a 32,792 am y chwe mis hyd at Hydref 2019. Roedd hyn yn ostyngiad o 20% o gymharu â'r cyfnod cyfrifo blaenorol.

- Cynnal 11 arddangosfa gyfoes fawr / 23 arddangosfa gelf gyfoes fach / 4 arddangosfa gelf hanesyddol / 3 arddangosfa amgueddfa / 42 o weithgareddau i blant a theuluoedd / 94 o ymweliadau addysgiadol cynlluniedig / 12 sgwrs yn y gymuned i sôn am yr Oriel a'r casgliadau / 30 o ddosbarthiadau meistr i oedolion, darlithoedd a bywluniadau / 13 sgwrs y tu ôl i'r llenni / 156 ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â'r casgliadau / gweithio hefo llawer o bartneriaid lleol a chenedlaethol yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

## PERFFORMIAD BUDDSODDI

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwaranau ac eiddo o bob math, p'un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â waeth beth fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y pwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor hir (h.y. y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant) - wedi ei gyfrifo heb gynnwys gwerth y tir fel a ganlyn:-

Penderfynwyd ar darged o £18.568m ar gyfer 30/09/19 (wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Pris Adwerthu) a'r gwir werth oedd £20.807m, sydd £2.24m yn uwch na'r targed. Mae hyn yn cymharu â phrisiad o £22.500m ar 31/03/18, a oedd £4.742m yn uwch na'r targed.

Incwm Buddsoddi:

Penderfynwyd ar darged o £972,024 ond llwyddwyd i ddenu £1,084,111, sydd £112,087 yn uwch na'r targed.

**Y perfformiad yn erbyn y meincnod**

Y strategaeth buddsoddi y cytunwyd arni ar gyfer y tymor hir yw denu 5% yn fwy na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr, gyda'r meincnod isod ar gyfer dyrannu asedau:-

| | | |
|---|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 30.0% | (Gwirioneddol 29%) |
| Ecwitïau Tramor | 36.5% | (Gwirioneddol 35%) |
| Llog Sefydlog | 25.0% | (Gwirioneddol 22%) |
| Eraill | 6.0% | (Gwirioneddol 12%) |
| Arian Parod | 2.5% | (Gwirioneddol 2%) |

**<u>DATGANIADAU ARIANNOL</u>**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir: Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau (FRS102) ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwr a'r Cyfrifon, a ddangosir ar dudalennau 7 i 19, gan gyfarfod yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2020.

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr ar 16 Gorffennaf 2020.**

**a'i lofnodi ar ei ran gan: ..........................................**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Rhif Elusen Gofrestredig: 1000818

## DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 30 MEDI 2019

| 2017/18 £ | ADNODDAU I MEWN | NODYN | Y GRONFA GYFFREDINOL £ | Y GRONFA GYFALAF £ | CYFANSWM £ |
|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm Buddsoddi | | | | |
| 555,736 | - Difidend a llog sefydlog ar fondiau | | 915,335 | - | 915,335 |
| 45,676 | - Llog | | 168,776 | - | 168,776 |
| 601,412 | | 2 | 1,084,111 | - | 1,084,111 |
| 320 | Incwm arall | | - | 592 | 592 |
| 601,732 | **Cyfanswm Adnoddau i mewn** | | 1,084,111 | 592 | 1,084,703 |
| | **Adnoddau wedi eu gwario** | | | | |
| | Costau Cynhyrchu Cronfeydd | 3 | | | |
| 68,291 | Costau Rheoli Buddsoddiadau | | 159,575 | - | 159,575 |
| 6,900 | Costau Cyfreithiol a Marchnata | | | - | |
| 75,191 | **Cyfanswm costau cynhyrchu cronfeydd** | | 159,575 | - | 159,575 |
| **526,541** | **Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol** | | **924,536** | **592** | **925,128** |
| | **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| | Grantiau er hyrwyddo amcanion yr Elusen | 5 | | | |
| 215,000 | - Cyngor Sir Ynys Môn – Oriel Ynys Môn | | 430,000 | - | 430,000 |
| 143,579 | - Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol | | 304,990 | - | 304,990 |
| 570,000 | - Grantiau Mwy | | - | 1,131,074 | 1,131,074 |
| (972) | Llai Grantiau heb eu hawlio | | (8,000) | - | (8,000) |
| 927,607 | **Cyfanswm cost Grantiau a Gweithgareddau** | | 726,990 | 1,131,074 | 1,858,064 |
| | **Llywodraethu** | | | | |
| 44,623 | Ffioedd a Chostau | 6 | 3,830 | (31) | 3,799 |
| **972,230** | **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | | **730,820** | **1,131,043** | **1,861,863** |
| | | | | | |
| **1,047,421** | **Cyfanswm Adnoddau wedi eu gwario** | | **880,239** | **1,131, 043** | **2,011, 282** |
| **(445,689)** | **Adnoddau Net i mewn** | | **193,716** | **(1,130,451)** | **(936,735)** |
| | **Enillion a Cholledion Eraill** | | | | |
| (500,323) | Enillion/(colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwerthiant asedau buddsoddi | 14 | - | 1,424,664 | 1,424,664 |
| (946,012) | **Symudiadau Net o Gronfeydd** | | 193,716 | 294,213 | 487,929 |
| 21,836,808 | **Cyfanswm Cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2018** | | 41,499 | 20,849,347 | 20,890,796 |
| **20,890,796** | **Cyfanswm Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 30 Medi 2019** | | **235,165** | **21,143,560** | **21,378,725** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir
Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

**Y FANTOLEN FEL AR 30 MEDI 2019**

| 2017/18 £ | | NODYN | 2019 £ | 2019 £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Asedau Sefydlog** | | | |
| 21,535,883 | Buddsoddiadau | 8 | | 22,380,929 |
| 21,535,883 | | | | 22,380,929 |
| | **Asedau Cyfredol** | | | |
| 58,346 | Dyledwyr ac Incwm wedi ei gronni | 9 | 56,879 | |
| 7,021 | Arian yn y Banc | | 7,516 | |
| 65,367 | | | | 64,395 |
| | **Ymrwymiadau** : Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| (38,248) | Credydwyr | 10 | (29,913) | |
| (672,206) | Grantiau heb eu talu | 11 | (1,036,686) | |
| (710,454) | | | | (1,066,599) |
| **(645,087)** | **Asedau / (Ymrwymiadau) Cyfredol Net** | | | **(1,002,204)** |
| **20,890,796** | **Asedau Net** | | | **21,378,725** |
| | **Cronfeydd** | 12 | | |
| (41,448) | Cronfeydd heb eu Cyfyngu : Y Gronfa Gyffredinol | 13 | | 235,165 |
| 21,810,188 | : Cyfalaf | | | 23,235,442 |
| (960,840) | : Grantiau i'w Dyrannu o Cyfalaf | | | (2,091,882) |
| **20,890,796** | | | | **21,378,725** |

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir
Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig : 1000818

## DATGANIAD LLIF ARIAN FEL AR 30 MEDI 2019

| | **NODYN** | | **2019** **£** | | **2018** **£** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu:** | 15 | | **(1,663,235)** | | **(910,639)** |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) gweithgareddau gweithredu** | | | | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | | 1,084,693 | | 614,750 | |
| Gwerthiannau y flwyddyn flaenorol yn disgwyl setliad | | - | | - | |
| Elw o werthu buddsoddiadau | | 11,255,025 | | 7,264,172 | |
| Prynu buddsoddiadau | | (11,089,827) | | (6,767,995) | |
| | | 1,249,891 | | (1,110,928) | |
| **Arian net ddarparwyd gan (ddefnyddiwyd yng) ngweithgareddau buddsoddi** | | | **1,249,891** | | **(1,110,928)** |
| **Newid yn yr arian a chywerthoedd arian yn y cyfnod adrodd** | | | **(413,344)** | | **200,289** |
| **Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd** | | 824,251 | | 623,962 | |
| **Newid yn yr arian a chywerthoedd arian yn y cyfnod adrodd** | | (413,344) | | 200,289 | |
| **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | | **410,907** | | **824,251** |

**Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwr yng Ngorffennaf 2020**

**a llofnodwyd ar ei ran gan** ………………………………………..

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

### 1. POLISÏAU CYFRIFO

**(a)** **Sail Gyfrifo:** Darparwyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n darparu eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2015) – (SORP Elusennau (FRS102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS102) a gweithred yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad FRS102 o endid budd cyhoeddus. Cofnodir asedau a rhwymedigaethau yn y cyfrifon ar gost hanesyddol oni bai eu bod wedi eu hailddatgan yn unol â pholisi cyfrifo perthnasol.

**(b)** Mae'r **grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amodau a roddwyd ar y cyllid wedi eu cadarnhau.

**(c)** Mae'r **incwm buddsoddi** wedi ei gynnwys yn y cyfrifon:-

- am adneuon tymor byr a balansau ar sail gronedig ddyddiol;
- am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-ddifidend;
- am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
- am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o stociau a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

**(ch)** **Gwariant**: Cynhwysir gwariant ar sail gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategorïau pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i sefydliadau gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o fwriad i gynnig grant yn y dyfodol, nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae rheoli a gweinyddu yn cynnwys taliadau i drydydd partîon yn ymwneud â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

**(d)** **Buddsoddiadau**: Mae buddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth wedi eu prisio yn ôl pris canolig y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prisio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu neu ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu codi neu eu rhoi fel credyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

**(dd)** **Eiddo Buddsoddi**: Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(e)** **Cronfeydd**: Rhoddir eglurhad ar natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

**(f)** **Darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol** : Mae'r ymddiriedolwr o'r farn fod gan yr elusen ddigon o gyllid wrth gefn a bod yr elusen yn fusnes weithredol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae eu ffioedd yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm o fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) am y cyfnod cyfredol yn £1,084,111.

## 3. COSTAU CYNHYRCHU'R CRONFEYDD

Y rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi.

| | **30 Medi 2019 £** | **2017/18 £** |
|---|---|---|
| Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi | 159,575 | 68,291 |
| Costau Cyfreithiol | | 6,900 |
| | 159,575 | 75,191 |

## 4. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YMDDIRIEDOLWR A THRAFODION CYFFELYB

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o'r Ymddiriedolaeth unrhyw gydnabyddiaeth ariannol yn ystod y flwyddyn.

Rheolwyr allweddol yr Ymddiriedolaeth yw'r Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151, Rheolwr Grantiau, Uwch Gyfrifydd a Chynorthwyydd Gweinyddol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 5. GRANTIAU

Isod mae'r gwariant elusennol uniongyrchol gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn:-

| | 30 Medi 2019 £ | Nifer | 2017/18 £ | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn -** Oriel Ynys Môn | 430,000 | 1 | 215,000 | 1 |
| **Grantiau i Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol** | | | | |
| - Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Arall | 144,990 | 38 | 63,579 | 18 |
| -Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | | | | |
| | 160,000 | 30 | 80,000 | 30 |
| **Grantiau Mwy** | | | | |
| - Gemau'r Ynysoedd | 40,000 | 1 | 40,000 | 1 |
| - Urdd Gobaith Cymru | 88,000 | 1 | 40,000 | 1 |
| - Clwb Ffermwyr Ifanc | 60,000 | 1 | 30,000 | 1 |
| - Cynllun Leader Menter Môn | 132,126 | 1 | 110,000 | 1 |
| - Neuadd Bentref Aberffraw | 43,100 | 1 | | |
| - Swyddfa Cyngor ar Bopeth | 39,794 | 1 | | |
| - Banc Bwyd Ynys Môn | 20,000 | 1 | | |
| - Tudur Cyf | 6,000 | 1 | | |
| - Cymdeithas Treftadaeth Ddiwydiannol Amlwch | 66,414 | 1 | | |
| - Caru Amlwch | 37,542 | 1 | | |
| - Beic Gwaed Cymru | 7,590 | 1 | | |
| - Clwb Rygbi Llangefni | 18,000 | 1 | | |
| - Ffrindiau Moelfre | 26,900 | 1 | | |
| - Neuadd Bentref Llanfairynghornwy | 26,388 | 1 | | |
| - Côr Ieuenctid Môn | 13,762 | 1 | | |
| - Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn | 10,000 | 1 | | |
| - Neuadd Goffa Bodwrog | 24,650 | 1 | | |
| - Ysgol Gyfun Llangefni | 10,000 | 1 | | |
| - Neuadd Bentref Llanddona | 20,354 | 1 | 45,000 | 1 |
| - Band Biwmares | 10,000 | 1 | | |
| - Clwb Rygbi Caergybi | 50,000 | 1 | | |
| - Clwb Pêl-droed Aberffraw | 54,018 | 1 | | |
| - Age Cymru | 13,000 | 1 | | |
| - Hosbis Dewi Sant | 34,000 | 1 | | |
| - Menter Gymdeithasol Parc Mount | 12,026 | 1 | | |
| - Meithrinfa Morlo | 27,397 | 1 | | |
| - Cymdeithas Strôc | 10,895 | 1 | | |
| - Gŵyl Caergybi | 7,854 | 1 | | |
| - Wild Elements | 14,633 | 1 | | |
| - Môn FM | 50,826 | 1 | | |
| - Grŵp Cymunedol Porth Amlwch | 30,635 | 1 | | |
| - CIC Cemaes | 30,000 | 1 | | |
| - Canolfan Ucheldre | | | 30,000 | 1 |
| - Mind Ynys Môn a Gwynedd | | | | |
| - Rheilffordd Ganolog Môn | | | 20,000 | 1 |
| - Canolfan Hamdden Biwmares | | | 25,000 | 1 |
| - Cwmni Tref Llangefni | | | 45,000 | 1 |
| - Cyngor Cymuned Llanfair ME | | | 25,000 | 1 |
| - Clwb Bocsio Caergybi | | | 10,000 | 1 |
| - Cadetiaid Môr Caergybi | | | 20,000 | 1 |
| - Cyngor Tref Caergybi | | | 20,000 | 1 |
| - Clwb Pêl-droed Cemaes | | | 50,000 | 1 |
| - Medrwn Môn | 37,170 | 1 | | |
| - GC Môn | 58,000 | 1 | 25,000 | 1 |
| | | | 35,000 | 1 |
| | **1,866,064** | **103** | **928,579** | **65** |

**Grantiau heb eu hawlio**

Mae'r balansau sy'n weddill gan y sefydliadau isod wedi cael eu dileu:-

| | 30 Medi 2019<br>£ | 2017/18<br>£ |
|---|---|---|
| Canolfan Gymunedol David Hughes | 8,000 | |
| Neuadd Goffa Bodedern | | 211 |
| Clwb Gymnasteg Môn | | 136 |
| Cylch Llenyddiaeth Llanfairpwll | | 625 |
| | | |
| | **8,000** | **972** |

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn, gyda dim costau gweinyddu i'r Ymddiriedolaeth (£39,238 yn 2017/18). Y costau Llywodraethu yw'r ffioedd a delir i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth staff. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

| | 30 Medi 2019<br>£ | 2017/18<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Archwiliwr - am wasanaethau Archwilio | 2,500 | 2,500 |
| Costau Gweinyddu | 0 | 39,238 |
| Costau Teithio a Chynhaliaeth | 0 | 311 |
| Cyfryngau | 1230 | 2,044 |
| Eraill | 69 | 530 |
| | **3,799** | **44,623** |

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995, trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth ac amcangyfrifiwyd eu bod yn werth £550,000 ar y farchnad. Roedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac roedd yn destun yr un amodau â'r rheini a osodwyd ar yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 a gwerthwyd gweddill y tir yn Rhosgoch yn ystod 2015/16.

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei ddynodi fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochr i'r harbwr, sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif, a hefyd Melin Mona, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwraethol a'i amcanion diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prisio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 30 Medi 2019. Mae'r Prisiwr yn Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Asedau Treftadaeth eraill, na pholisi i fynd ati i gaffael unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

| | 30 Medi 2019<br>£ | 2017/8<br>£ |
|---|---|---|
| Equiti'r DU | 6,519,036 | 6,799,281 |
| Ecwiti Byd-Eang | 7,900,798 | 8,897,062 |
| Llog Sefydlog | 4,922,155 | 3,552,680 |
| Dewisiadau eraill | 2,635.549 | 1,654,804 |
| | 21,977,538 | 20,718,654 |
| Arian Parod | 403,391 | 817,229 |
| | **22,380,929** | **21,535,883** |

Mae'r buddsoddiadau yn nwylo'r rheolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddidrafferth.

Gwelir manylion pellach ar y fath o fuddsoddiadau heb fod yn arian a ddefnyddiwyd yn y cyfnod yn y tabl isod:-

| | |
|---|---|
| iShares Craidd Cyfnewidol Masnachol Byd MSCI (cronfa ecwiti yn GBP) | 15.03% |
| HSBC FTSE Mynegai Cyfranddaliadau Inc (cronfa ecwiti yn GBP) | 14.71% |
| HSBC Cronfa Fuddsoddi byd-eang Cronfa Dyled Leol Marchnadoedd ddatblygol (cronfa incwm sefydlog yn USD) | 7.38% |
| HSBC Cronfa Mynegai America (cronfa ecwiti yn GBP) | 5.44% |
| Savills Cronfa Eiddo Elusennau (cronfa eiddo yn GBP) | 4.94% |
| HSBC Cronfa Gyffredin ar gyfer Incwm (cronfa ecwiti elusennol-benodol) | 4.09% |
| HSBC Cronfa Mynegai Byd-eang FTSE (cronfa ecwiti yn GBP) | 3.48% |
| HSBC Cronfeydd Buddsoddi Byd-eang Cronfa Bondiau â Chefnogaeth Asedau Byd-eang (cronfa incwm sefydlog yn GBP) | 3.34% |
| ishares Craidd MSCI Marchnadoedd ddatblygol Mynegai Marchnadoedd Buddsoddadwy Cronfa Masnach Cyfnewid UCITS (cronfa ecwiti yn USD | 3.21% |
| Portffolio Traws Asedau Goldman Sachs (cronfa wrychoedd yn GBP) | 2.54% |
| Daliadau Eraill | 35.84% |

Mae arian parod sydd wedi'i fuddsoddi yn cynnwys symiau bach o arian tramor. Dangosir yr holl fuddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerthoedd hanesyddol cyfatebol ar 30 Medi 2019 fel a ganlyn: -

| | Gwerth Hanesyddol £'000 | Gwerth y Farchnad £'000 | Gwahaniaeth £000 |
|---|---|---|---|
| Equiti'r DU | 5,802 | 6,519 | 717 |
| Ecwiti Byd-Eang | 6,705 | 7,901 | 1,196 |
| Llog Sefydlog | 4,656 | 4,922 | 266 |
| Dewisiadau eraill | 2,312 | 2,635 | 323 |
| | **19,745** | **21,977** | **2,502** |

| | Gwerth Hanesyddol £'000 | Gwerth ar y Farchnad £'000 | Enillion A Wireddir £'000 |
|---|---|---|---|
| Dygwyd Ymlaen | 18,670 | 20,719 | - |
| Gwerthiannau ac Adbryniadau | (10,285) | (11,256) | 971 |
| Pryniannau ac ati | 11,090 | 11,090 | - |
| Cyfanswm Enillion /(Colledion) yn ystod y flwyddyn | - | 1,424 | - |
| | **19,475** | **21,977** | |

Cyfrifir enillion / (colledion) fel cyfanswm y gwahaniaeth rhwng incwm yn sgil gwerthu a chost hanesyddol. Cyfanswm yr enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion / (colledion) o werthu daliadau ar ôl unrhyw addasiadau i gost hanesyddol, plws enillion / (colledion) nad ydynt wedi eu gwireddu.

## 9. DYLEDWYR AC INCWM CRONEDIG

| | 30 Medi 2019 £ | 2017/18 £ |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi Cronedig | 56,879 | 58,346 |
| | **56,879** | **58,346** |

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

| | 30 Medi 2019 £ | 2017/18 £ |
|---|---|---|
| Ffi Rheolwyr Buddsoddi | 27,413 | 17,258 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | | 18,490 |
| Ffi archwilio | 2,500 | 2,500 |
| | **29,913** | **38,248** |

## 11. DYRANIADAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw'r rhain a roddwyd yn y blynyddoedd blaenorol â'r ymgeiswyr heb hawlio'r arian eto. Fel arfer, mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hynny yn y ffigwr hwn.

Mae'r grantiau adfywio ar gyfer cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

| | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Gyfalaf £'000 | Grantiau a Ddyrannwyd o'r Gronfa Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|
| Eiddo Buddsoddi | - | - | - |
| Buddsoddiadau | 1,237 | 23,235 | (2,092) |
| Asedau Cyfredol Net | (1,002) | - | - |
| | **235** | **23,235** | **(2,092)** |

Mae'r arian parod sydd dros ben mewn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn gan Shell (UK) Cyf. pan roddwyd y gorau i weithredu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd, gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Gyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad sy'n rhan o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau ar gyfer gwella, diogelu neu farchnata'r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

Y balans ar y **Gronfa Gyffredinol** yw'r gwarged a'r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd blaenorol, sef gwarged y mae'r Ymddiriedolaeth yn rhydd i'w ddefnyddio yn unol â'r amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau, a'r costau eraill na chodir i'r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn, yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol ddigyfyngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Mae'r dyraniadau a wneir yn rhaglen grantiau blynyddol yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ymwneud â'r gronfa wrth gefn hon.

## 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

| | **Balans a ddygwyd ymlaen £** | **Adnoddau i mewn £** | **Adnoddau wedi eu Defnyddio £** | **Enillion a Cholledion £** | **Symudiad ar Fuddsoddiadau £** | **Balans i'w ddwyn ymlaen £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | 41,499 | 1,084,111 | (890,239) | - | - | 235,165 |
| Y Gronfa Gyfalaf | 21,810,186 | 592 | - | - | 1,424,664 | 23,235,442 |
| Grantiau Ddyrannwyd | (960,839) | - | (1,131,043) | - | - | (2,091,882) |
| | **20,890,796** | **1,084,703** | **(2,011,282)** | **-** | **1,424,664** | **21,378,725** |

## 14. DADANSODDIAD O'R ENILLION / (COLLEDION) AR AILBRISIADAU AC YN SGIL CAEL GWARED AR ASEDAU BUDDSODDI

| | **30 Medi 2019 £** | **2017/18 £** |
|---|---|---|
| (Colled) a wireddwyd ar werthu Ased Sefydlog | - | - |
| (Colled) heb ei wireddu ar Ailbrisio | - | - |
| Cynnydd a wireddwyd ac heb ei wireddu yng ngwerth Buddsoddiadau | 1,424,664 | (500,323) |
| | **1,424,664** | **(500,323)** |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn | (936,735) | (445,689) |
| **Cyfanswm** | **(487,929)** | **(946,012)** |

## 15. CYSONI SYMUDIADAU NET YN Y CYLLID I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | **30 Medi 2019 £** | **2018 £** |
|---|---:|---:|
| Symudiad net yn y cyllid ar gyfer y cyfnod adrodd | 487,929 | (946,012) |
| **Addasiad ar gyfer :** | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | (1,084,111) | (601,732) |
| Enillion wedi eu gwireddu a heb eu gwireddu ar waredu | (1,424,664) | 500,323 |
| (Cynnydd)/gostyngiad - dyledwyr | 1,467 | 13,675 |
| Cynnydd / (gostyngiad) - credydwyr | 356,144 | 123,107 |
| **Arian net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) weithgareddau gweithredu** | **1,663,235)** | **(910,639)** |

| Mudiad | Grant £ | Organisation |
|---|---|---|
| Oriel Ynys  Môn | 430,000 | Oriel Ynys Môn |
| Cerddoriaeth mewn Ysbytai a Gofal | 5,468 | Music in Hospitals and Care |
| Cwmni Sefydledig Prichard Jones | 618 | Prichard Jones Institute |
| Cerddwyr Ynys Môn | 1,522 | Ynys Môn Ramblers |
| Sefydliad y Merched Ynys Môn | 644 | Anglesey Federation Women's Institute |
| Canolfan Cymunedol David Hughes | 8,000 | David Hughes Community Centre |
| Clwb 'Bridge' Biwmares | 1,620 | Beaumaris Duplicate Bridge Club |
| Neuadd Gymunedol Cofeb Rhyfel Porthaethwy | 8,000 | Menai Bridge War Memorial Community Hall |
| Clwb Pêl-droed Bro Goronwy | 2,380 | Bro Goronwy Football Club |
| Beirdd Cybi | 800 | Cybi Poets |
| MônSŵn | 1,539 | MônSŵn |
| Clwb Pêl-droed Amlwch | 7,350 | Amlwch Football Club |
| Clwb Bowlio Dan Do Caergybi | 1,000 | Holyhead Indoor Bowling Club |
| Hwyliog Môn | 1,750 | Hwyliog Môn |
| Cymdeithas Rhandir Llangefni | 3,092 | Rhandir, Llangefni Allotment Association |
| Neuadd Eglwys y Santes Fair, Caergybi | 7,320 | St Mary's Church Hall, Holyhead |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cherrigceinwen | 700 | Llangristiolus & Cerrigceinwen Community Council |
| Radio Ysbyty Gwynedd | 6,882 | Radio Ysbyty Gwynedd |
| Clwb Pêl-droed Llangoed a'r Cyffinia | 4,611 | Llangoed & District Football Club |
| Canolfan Penmynydd | 5,345 | Canolfan Penmynydd |
| Menter Neuadd St. Gwenfaen, Rhoscolyn | 7,905 | St Gwenfaen Hall Enterprise, Rhoscolyn |
| Byd Dawnsio Môn | 8,000 | Dance World Môn |
| Grŵp Gwrando ar Lyfr | 1,245 | Listening Book Group |
| Cymdeithas Cae Cybi, Treseifion | 2,660 | Treseifion, Cae Cybi Field Association |
| Grŵp Treftadaeth Caergybi | 5,250 | Holyhead Heritage Group |
| Neuadd Bentref Talwrn | 4,347 | Talwrn Village Hall |
| Cyngor Cymuned Penmynydd a Star | 2,100 | Penmynydd and Star Community Council |
| Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon | 8,000 | Llangoed & Penmon Community Council |
| DHDC/DOWH (Darganfod Hen Dai Cymreig) | 3,500 | DHDC/DOWH (Discovering Old Welsh Houses) |
| Parti Meibion Bara Brith | 79 | Parti Meibion Bara Brith |
| Cymdeithas Ddinesig Porthaethwy | 848 | Cymdeithas Ddinesig Porthaethwy |
| Gobaith Môn | 5,600 | Gobaith Môn |
| Neuadd Goffa Bodedern | 5,005 | Neuadd Goffa Bodedern |
| Cantorion Menai | 4,500 | Cantorion Menai |
| Geo Môn UNESCO | 2,380 | Geo Môn UNESCO |
| Cyngor Cymuned Llanddaniel | 7,000 | Cyngor Cymuned Llanddaniel |
| Canolfan Cynghori Ynys Môn | 559 | Canolfan Cynghori Ynys Môn |
| Canolfan Iorwerth Rowlands | 6,951 | Canolfan Iorwerth Rowlands |
| Cerddoriaeth yn Ysbytai a Gofal Cymru | 420 | Cerddoriaeth yn Ysbytai a Gofal Cymru |

| **Mudiad** | **Grant £** | **Organisation** |
|---|---:|---|
| Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | 160,000 | Village Hall Running Costs |
| Gemau'r Ynysoedd | 40,000 | Island Games |
| Urdd Gobaith Cymru | 88,000 | Urdd Gobaith Cymru |
| Clwb Ffermwyr Ieuanc | 60,000 | Young Farmers Club |
| Cynllun Leader Menter Môn | 132,126 | Menter Môn Leader Scheme |
| Neuadd Pentref Aberffraw | 43,100 | Aberffraw Village Hall |
| Cyngor ar Bopeth | 39,794 | Citizens Advice |
| Banc Bwyd Ynys Môn | 20,000 | Anglesey Food Bank |
| Tydyr Cyf | 6,000 | Tudur Cyf |
| Cymdeithas Treftadaeth Diwydiannol Amlwch | 66,414 | Amlwch Industrial Heritage Society |
| Caru Amlwch | 37,542 | Caru Amlwch |
| Beic Gwaed Cymru | 7,590 | Blood Bike Wales |
| Clwb Rygbi Llangefni | 18,000 | Llangefni RFC |
| Ffrindiau Moelfre | 26,900 | Ffrindiau Moelfre |
| Neuadd Bentref Llanfairynghornwy | 26,388 | Llanfairynghornwy Village Hall |
| Côr Ieuenctid Môn | 13,762 | Côr Ieuenctid Môn |
| Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn | 10,000 | Anglesey Column Trust |
| Neuadd Goffa Bodwrog | 24,650 | Bodwrog Memorial Hall |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 10,000 | Ysgol Gyfun Llangefni |
| Neuadd Bentref Llanddona | 20,354 | Llanddona Village Hall |
| Band Biwmares | 10,000 | Beaumaris Band |
| Clwb Rygbi Caergybi | 50,000 | Holyhead Rugby Club |
| Clwb Pêl-droed Aberffraw | 54,018 | Aberffraw Football Club |
| Age Cymru | 13,000 | Age Cymru |
| Hosbis Dewi Sant | 34,000 | St David's Hospice |
| Menter Gymdeithasol Parc Mount | 12,026 | Parc Mount Social Enterprise |
| Meithrinfa Morlo | 27,397 | Morlo Nursery |
| Cymdeithas Strôc | 10,895 | Stroke Association |
| Gŵyl Caergybi | 7,854 | Holyhead Festival |
| Elfennau Gwyllt | 14,633 | Wild Elements |
| Môn FM | 50,826 | Môn FM |
| Grŵp Cymunedol Porth Amlwch | 30,635 | Amlwch Port Community Group |
| CIC Cemaes | 30,000 | Cemaes CIC |
| Clwb Pêldroed Cemaes | 37,170 | Cemaes Football Club |
| Medrwn Môn | 58,000 | Medrwn Môn |
| | **1,866,064** | |

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr**

Yr ymddiriedolwr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn unol â chyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o'r elusen, yr adnoddau sy'n dod I mewn a'r defnydd a wnaed o adnoddau'r elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

**(a)** ddewis polisïau cyfrifo a'u gweithredu'n briodol;
**(b)** dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadiadau Cymeradwy o Ymarferion Elusennnau (SORP);
**(c)** gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth;
**(ch)** datgan a yw'r polisïau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r safonau cyfrifo perthnasol, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a ddatgelir ac a esbonir yn y datganiadau ariannol; a
**(d)** paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol onid yw'n amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n caniatáu iddynt sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Ddeddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifo ac Adrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithred yr ymddiriedolaeth. Yr ymddiriedolwr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac, felly, am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn hyd 30 Medi 2019, sydd yn cynnwys y Datganiad o Weithredoedd Ariannol, y Fantolen a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol:-

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr elusen ar 30 Medi 2019, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Ymarfer Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig;
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn y rhan o'n hadroddiad sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r archwiliwr ar gyfer cynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sydd yn berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn addas i bwrpas bod yn sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes gweithredol**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol ble mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chwi lle:-

- nad yw defynydd yr ymddiriedolwyr o'r sail gyfrifo ar gyfer darparu datganiadau ariannol busnes gweithredol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw elfennau o ansicrwydd sylweddol sydd wedi eu hadnabod ac a all fwrw amhaeaeth sylweddol ynghylch gallu'r elusen i ddefnyddio'r sail gyfrifo ar gyfer busnes gweithredol am gyfnod o leiaf deuddeg mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

**Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gafodd ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilo arnynt. Nid yw ein barn ni ynghylch y datganiadau ariannol yn ystyried y wybodaeth arall ac eithrio pan nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw farn sicrwydd arni.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb sylweddol rhyngddi a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad, a chyfrifoldeb i ystyried a yw'n ymddangos bod y wybodaeth wedi ei chamddatgan. Os gwelwn unrhyw anghysondebau neu gamddatganiadau sylweddol o'r fath, mae'n ofynnol arnom i benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall. Os down i gasgliad, ar sail y gwaith a gwblhawyd, fod camddatganiad sylweddol yn y wybodaeth arall yma mae'n ofynnol arnom i roi gwybod am hynny.

Nid oes gennym ddim i adrodd arno yn y cyswllt hwn.

**Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt trwy eithriad**

Yn sgil y wybodaeth am yr elusen a'i hamgylchedd, a'r dealltwriaeth a gawsom ohoni trwy gynnal ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camddatganiad sylweddol yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i ddatgan ynglyn â’r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:-

- nid yw cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â’r cofnodion ariannol a’r dychweliadau; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau angenrheidiol ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau’r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi’r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaethau mewnol mae’r ymddiriedolwyr yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i fedru paratoi datganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi’r datganiadau ariannol, mae’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu’r Elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel yn briodol, faterion sy’n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail gyfrifo ar gyfer busnes gweithredol, oni bai bod yr ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu diddymu’r elusen neu roi’r gorau i’w gweithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis rhesymol arall ond gwneud hynny.

**Ein cyfrifoldebau ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw’n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad sylweddol os yw’n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda’i gilydd, y buasai’n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio penderfyniadau economaidd a wnaed ar sail y cyfryw ddatganiadau.

Mae disgrifiad pellach o’n cyfrifoldebau ni ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor ar Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae’r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o’n adroddiad archwilio.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Mae’r adroddiad hwn wedi ei lunio ar gyfer ymddiriedolwyr yr Elusen yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 144, Ddeddf Elusennau 2011 a’r rheoliadau o dan Adran 154 y Ddeddf honno. Rydym wedi ymgymryd a’r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwyr yr Elusen ar y materion hynny y mae’n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad archwilio ac nid i bwrpas arall. Hyd at yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am ymddiriedolwyr yr Elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi dod iddi.

*W J Matthews a’i Fab*
*Archwilwyr Statudol*
*Cyfrifwyr Siartredig*
*11-15 Y Bont Bridd*
*Caernarfon*
*Gwynedd*
*LL55 1AB*

*Dyddiad:*

This page is intentionally left blank